Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

7 Chwefror 2019

Annwyl Mick,

Diolch ichi am eich llythyr ynglŷn â Rheoliadau Hawliau Bridwyr Planhigion (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018.

Cyn ateb y cwestiynau penodol a ofynnir yn eich llythyr, hoffwn roi rhagor o fanylion am effaith a bwriad y rheoliadau hyn, er mwyn rhoi mwy o gyd-destun i'r pwyllgor ynglŷn â pham y cafodd y rheoliadau hyn eu gwneud ar lefel y DU gyfan.

Mae Rheoliadau Hawliau Bridwyr Planhigion (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018 ('Rheoliadau 2018') yn mynd i'r afael â diffygion sy'n codi oherwydd bod y DU yn ymadael â'r UE. Maent yn rhoi swyddogaethau i awdurdod cyhoeddus sy'n bodoli eisoes (Rheolydd Hawliau Amrywogaethau Planhigion − 'y Rheolydd') sy'n gweithredu o dan gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion Cymru, Gweinidogion yr Alban ac Adran Gogledd Iwerddon, ac sy'n cael ei benodi ganddynt ar y cyd.

Mae fframwaith deddfwriaethol sydd wedi hen ymsefydlu yn bodoli eisoes ar draws y DU ar gyfer Hawliau Amrywogaethau Planhigion, a hynny drwy Ddeddf Amrywogaethau Planhigion 1997 ('Deddf 1997'), a bwriedir sefydlu cytundeb anneddfwriaethol a fydd yn nodi'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, gwneud penderfyniadau, datrys anghydfodau a mynediad i'r farchnad/allforio.

Pan fydd y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, ni fydd Rheoliad y Cyngor 2100/04 a Hawliau Amrywogaethau Planhigion y Gymuned Ewropeaidd (CPVR) a roddwyd yn unol â'r Rheoliad hwnnw yn cael eu cydnabod bellach yn y DU. Bydd hyn yn effeithio ar fuddiannau economaidd y rheini sy'n dal yr hawliau ac yn golygu na fyddant bellach yn gallu mwynhau'r hawliau hynny. Mae angen y newidiadau a wnaed gan Reoliadau 2018 er mwyn sicrhau bod amrywogaethau y rhoddwyd CPVR iddynt cyn 29 Ionawr 2019 yn parhau i gael eu gwarchod yn y DU. Byddai hynny'n golygu y byddai'r cyfnod apelio o ddeufis y darperir ar ei gyfer yn dod i ben ar 29 Mawrth. Mae eu hangen hefyd fel y bo modd cyflwyno ceisiadau yn

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

y DU am hawliau bridwyr planhigion os na fydd unrhyw geisiadau am Hawliau Amrywogaethau Planhigion y Gymuned Ewropeaidd (CPVR) wedi'u datrys erbyn y dyddiad ymadael.
Mae rhai o ddarpariaethau Deddf 1997 yn cyfeirio at Reoliad y Cyngor ac mae angen diwygiadau er mwyn cynnwys y darpariaethau hynny, pan fo hynny'n briodol, yn neddfwriaeth y DU.

Bydd Rheoliadau 2018 yn golygu y bydd modd cyflwyno ceisiadau am hawliau yn y DU ymhen chwe mis i'r dyddiad ymadael ar gyfer unrhyw amrywogaeth na fydd cais am CPVR ar ei chyfer wedi'i ddatrys erbyn y dyddiad ymadael. Bydd y dyddiad blaenoriaeth (dyddiad y cais) ac archwiliad technegol (prawf am nodweddion unigryw, unffurfiaeth a sefydlogrwydd) yn cael eu defnyddio yn yr un modd ag ar gyfer CPVR. Bydd hwn yn gais i’r DU am hawliau o dan Ddeddf 1997, a'r Rheolydd fydd yn penderfynu ar y cais hwnnw. Ystyr cais heb ei ddatrys yw cais nad yw Swyddfa Amrywogaethau Planhigion y Gymuned Ewropeaidd wedi penderfynu arno cyn y dyddiad ymadael neu lle y bydd penderfyniad i roi hawliau wedi'i wneud ond na fydd y cyfnod apelio o ddeufis wedi dod i ben cyn y dyddiad ymadael.

Nid oeddem yn gallu gweld y byddai sefydlu cyfundrefn i Gymru yn unig mewn perthynas â hawliau bridwyr planhigion o unrhyw fudd i ddinasyddion yng Nghymru y byddai'r rheoliadau'n effeithio arnynt. Mae hanes o weithredu ar y cyd mewn perthynas â hawliau bridwyr planhigion. Mae Deddf 1997 yn darparu bod y Rheolydd yn gweithredu o dan gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion Cymru, Gweinidogion yr Alban ac Adran Gogledd Iwerddon a'i fod yn cael ei benodi ganddynt ar y cyd. Cafodd y cyd-swyddogaethau hynny eu cadw pan drosglwyddwyd y swyddogaethau o dan y ddeddf honno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (gan OS 1999/672). Cafodd yr is-ddeddfwriaeth y a ddiwygir gan y Rheoliadau ei gwneud ar y cyd. Cafodd Rheoliadau Hawliau Bridwyr Planhigion (Enwi a Ffioedd) 2006 eu gwneud ar y cyd, yn rhannol, gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Roedd y ffaith na fyddai unrhyw fudd yn deillio o sefydlu cyfundrefn ar wahân i Gymru, yn ogystal â'r costau a'r heriau posibl o ran cynllunio a threfnu a fyddai'n gysylltiedig â sefydlu cyfundrefn o'r fath erbyn y dyddiad ymadael, yn rheswm cryf dros benderfynu mai'r Rheolydd yw'r corff priodol y dylid rhoi'r swyddogaethau iddo. Rheoliadau ar lefel y DU gyfan oedd yr unig ffordd o gyflawni'r nod polisi hwn oherwydd nad oes gan y gweinyddiaethau datganoledig y pŵer i roi swyddogaethau ar y cyd ar lefel y DU gyfan i'r Rheolydd.

Hefyd, nid oedd modd creu cyfundrefn weithredol ar gyfer Cymru yn unig drwy'r rhaglen OSau sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r UE. Mae gwahanol gyfyngiadau ar bwerau Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, ac mae'r un mwyaf perthnasol i'w weld yn adran 8(7)(d) (sy'n cael ei gymhwyso i bwerau cyfatebol Gweinidogion Cymru gan baragraff 1(3) o Atodlen 2), sef na chaiff rheoliadau o dan adran 8(1) sefydlu awdurdod cyhoeddus. Mae yna bwerau o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) sy'n caniatáu i swyddogaethau ychwanegol gael eu rhoi i awdurdod cyhoeddus sy'n bodoli eisoes (y Rheolydd yn yr achos hwn) ond nid oes unrhyw bwerau i sefydlu awdurdod cyhoeddus newydd yn Rheolydd ar gyfer Cymru yn unig.

Mae amrywogaethau a hadau planhigion yn bynciau sydd wedi'u datganoli (gweler yr eithriad i adran C4 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006). Byddai'r Cynulliad yn gallu deddfu er mwyn creu Swyddfa Amrywogaethau Planhigion i Gymru, ond ni fyddai cyfle i wneud hynny erbyn y dyddiad ymadael. Byddai gwneud hynny wedi golygu hefyd y byddai swyddogaethau'n cael eu cymryd oddi wrth y Rheolydd a byddai hynny'n golygu y byddai paragraff 10 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gymwys. Nid yw paragraff 10 yn golygu bod deddfwriaeth yn cael ei gwahardd yn llwyr: mae'n golygu ei bod yn ofynnol cael cysyniad yr Ysgrifennydd Gwladol i ddarpariaethau a fyddai'n rhoi effaith i’r paragraff.

Gan fod paragraff 10 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gymwys i'r Rheolydd eisoes, nid oes sicrwydd y byddai rhoi swyddogaethau sy'n rhan naturiol o gylch gwaith y Rheolydd yn cael effaith negyddol ar gymhwysedd deddfwriaethol o gymharu â'r sefyllfa bresennol. Ymddengys nad yw'n debygol mai dim ond yn mynd i'r afael â'r swyddogaethau newydd, a’r rheini’n unig, y byddai unrhyw ddeddfwriaeth ddamcaniaethol yn y dyfodol ar hawliau bridwyr planhigion.

Gwnaethoch ofyn pam nad ymgynghorwyd â'r Cynulliad cyn i Weinidogion Cymru roi eu cydsyniad i'r OS hwn. Mae'r Llywydd wedi ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru yn y gorffennol ynglŷn â'r ddibyniaeth ar ddeddfwriaeth Llywodraeth y DU, gan fynegi pryder bod hynny'n golygu nad yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn cael craffu'n fanwl ar y ddeddfwriaeth o dan sylw. Roedd ymateb Prif Weinidog Cymru yn esbonio bod angen cydweithio â Llywodraeth y DU o dan yr amgylchiadau unigryw sy'n gysylltiedig â Brexit ac yn dweud bod datganiadau ysgrifenedig yn cael eu darparu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad am yr OSau hynny ar lefel y DU sy'n cael eu gosod mewn meysydd sydd wedi'u datganoli i Gymru.

Gan fod y pwerau yn Neddf yr UE (Ymadael) yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogaethau newydd gael eu rhoi i gyrff cyhoeddus sy'n bodoli eisoes, bydd gadael yr UE yn golygu y bydd rhai cyrff cyhoeddus sy'n bodoli eisoes yn ysgwyddo swyddogaethau ychwanegol. Rydym yn rhagweld y byddai llawer o'r rhain yn cael eu rhoi yng Nghymru i awdurdodau sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cymru. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd enghreifftiau tebyg lle mai'r corff mwyaf priodol fydd corff ar lefel y DU gyfan. Bydd yr effaith y byddai rhoi'r swyddogaethau hynny yn ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol yn amrywio gan ddibynnu ar y pwnc o dan sylw. Nid oes modd dweud yn bendant, cyn ystyried y fersiwn ddrafft o'r OS o dan sylw, a fyddai'r un mater yn codi yn achos unrhyw OS a fydd yn cael ei gyflwyno yn y dyfodol.

Gwnaethoch ofyn hefyd am y cytundebau rhyngom a Llywodraeth y DU mewn perthynas â chydsyniadau yn y dyfodol.

Mae Swyddogion Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â Swyddfa Cymru am y cyfyngiadau anfwriadol ar gymhwysedd y Cynulliad sydd wedi'u creu gan bwerau a roddwyd mewn OSau sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r UE ac mewn deddfwriaeth arall sy'n rhoi effaith i baragraffau 8, 10 ac 11 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru. Mae swyddogion yn edrych ar y mater yn fanwl ac yn ystyried sut orau i'w ddatrys. Bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ati'n rheolaidd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, am hynt y trafodaethau hynny.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd